


GROW YOUR OWN POTATOES



Adnabod Tatws

Gwers 8: Ble mae tatws yn tyfu?

Bydd y plant yn:

- Archwilio ble mae tatws yn cael eu tyfu yn y Deyrnas Unedig gan ddefnyddio mapiau a'r rhyngwrwd. Ar gyfer y sesiwn hon bydd angen mapiau o'r Deyrnas Unedig arnoch, fersiwn fwy o faint o **Daflen Waith 12 Ble mae tatws yn tyfu?** a mynediad i'r rhyngwrwd.

5 – 7 oed:

Ar gyfer plant iau, chwiliwch am 3-4 o lefydd lle mae tatws yn cael eu tyfu yn y Deyrnas Unedig ac ysgrifennwch enwau'r llefydd hyn o amgylch ymyl y daflen waith.

Gosodwch smotiau ar y map o'r Deyrnas Unedig i ddangos ble mae'r llefydd hyn. Llungopiwch y daflen i'r plant ei defnyddio wrth gyflawni 'tasg' y wers.

Er gwybodaeth, dyma restr o'r prif lefydd lle tyfir tatws yn y Deyrnas Unedig:

Swydd Gaergrawnt

Cernyw

Swydd Henffordd

Lincolnshire

Norfolk

Sir Benfro

Perthshire

Swydd Amwythig

Suffolk

Swydd Efrog

Cyflwyniad

Dangoswch eich copi mawr o **Daflen Waith 12 Ble mae tatws yn tyfu?** i'r plant, gan sefydlu ei fod yn dangos y Deyrnas Unedig.

Edrychwch ar y map o'r Deyrnas Unedig gyda'r plant a nodi ble rydych chi.

Siaradwch am yr amodau ble rydych chi'n byw, e.e. tywydd, hinsawdd.

Cymharwch hyn â llefydd eraill y gallai'r plant wybod amdanynt neu fod wedi clywed amdanynt.

Dangoswch eich copi mawr o'r daflen waith a dangoswch sut i farcio ble rydych chi ar y daflen.

Gofynnwch i'r plant i enwi llefydd eraill maen nhw'n gwybod amdanynt yn y Deyrnas Unedig, e.e. ble mae perthynas yn byw, ble maent wedi bod ar wibdaith neu ar wyliau.

Dowch o hyd i'r rhain ar y map o'r Deyrnas Unedig.

5 – 7 oed:

Gyda phlant iau, symudwch i'r dasg rŵan (gweler y dudalen ganlynol).


Gyda'r plant hŷn, esboniwch y byddan nhw'n gwneud rhywfaint o ymchwil ar y rhyngwrwd i ddod o hyd i'r prif lefydd lle tyfir tatws.

Os oes gennych chi fwrdd gwyn rhyngweithiol a mynediad i'r rhyngwrwd, mi allech chi ddangos i'r plant sut i chwilio ar y We.

Mi allai'r plant hefyd edrych ar luniau lloeren er enghraifft, gan ddefnyddio 'Google Map', i gael syniad o sut le yw'r llefydd hyn.



GROW YOUR OWN POTATOES



Adnabod Tatws

Gwers 8: Ble mae tatws yn tyfu? parhad

Tasg

5 – 7 oed

Dosbarthwch y daflen waith a addaswyd gennych cyn y wers.

Dangoswch i'r plant sut i edrych ar y map o'r Deyrnas Unedig i ddod o hyd i enwau'r llefydd sydd ar eu taflen. Pan fyddan nhw wedi dod o hyd i'r llefydd, mae angen iddyn nhw dynnu llinellau ar eu taflen waith i gysylltu enwau'r llefydd â'r smotiau sy'n dangos eu lleoliad.

7 – 11 oed

Rhowch gopïau i'r plant o **Daflen Waith 12 Ble mae tatws yn tyfu?**

Gofynnwch i'r plant i weithio mewn paru neu fesul tri i wneud eu hymchwil.

Crynodeb

Gofynnwch i'r plant i roi adborth ar eu hymchwil a beth maent wedi'i ddysgu. Holwch:

- Ble mae'r prif lefydd lle tyfir tatws yn y Deyrnas Unedig?
- Sut lefydd ydyn nhw?
- Ydyn nhw i gyd mewn rhan arbennig o'r wlad?
- Sut hinsawdd a thirwedd sydd yn y llefydd hyn?
- Ydych chi'n meddwl bod 'na reswm pam fod tatws yn cael eu tyfu yno?
Sut mae'r hinsawdd yn effeithio ar bethau byw?

Awgrymiadau...

- Trefnu ymweliad â fferm leol sy'n tyfu tatws.

